## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD AR GYFER CYNGHORWYR

**Sut y bydda i'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn rhinwedd fy swydd yn Gynghorydd wrth fynd i'r afael â materion rydych chi'n eu codi gyda mi ar eich rhan chi.**

### 1. Pwy ydw i, beth yw fy rôl?

Fel Cynghorydd etholedig ym mwrdeistref Rhondda Cynon Taf, mae etholwyr yn aml yn gofyn i mi am fy nghyngor a'm cymorth i ddatrys materion a phroblemau sydd gyda nhw â sefydliadau ac asiantaethau. Mae modd i'r materion yma gynnwys, er enghraifft:

- Rhoi cymorth;
- Cefnogi preswylydd i adrodd am olau stryd sy wedi torri; a
- Cynorthwyo unigolyn i ddatrys mater sy'n gysylltiedig â hawliad.

Mae ymgymryd â'r gwaith yma yn golygu fy mod i'n aml yn gorfod casglu a phrosesu gwybodaeth bersonol am y person sydd wedi gofyn i mi roi cyngor neu gymorth iddyn nhw, neu sydd wedi gofyn i mi eu cynrychioli. Mae'n bwysig felly fy mod i'n egluro i bobl drwy'r hysbysiad preifatrwydd yma sut y bydd angen i mi ddefnyddio eu gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni fy rôl fel Cynghorydd.

### 2. Pa fath o wybodaeth bersonol ydw i'n ei chadw ac am bwy?

Os ydych chi'n cysylltu â mi yn fy rôl fel eich Cynghorydd dros y ffôn, trwy lythyr, drwy e-bost neu wyneb yn wyneb, rwy'n debygol o gasglu a phrosesu rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi er mwyn mynd i'r afael â'ch cais.

Mae'r wybodaeth bersonol y bydda i'n ei phrosesu amdanoch chi'n debygol o amrywio yn dibynnu ar natur y broblem neu'r pryder rydych chi wedi gofyn am fy nghymorth ynglŷn â hi/ag ef. Yn gyffredinol, bydda i'n gofyn am eich gwybodaeth bersonol fel eich enw, cyfeiriad a gwybodaeth gyswllt ynghyd â manylion eich problem neu'ch pryder. Weithiau, mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth sy'n ymwneud â manylion eich problem neu bryder yn cynnwys:

- Amgylchiadau teuluol, ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Gwybodaeth ariannol
- Gwybodaeth am addysg a chyflogaeth
- Gwybodaeth am eich sefyllfa o ran tai
- Manylion y gŵyn/pryder

Efallai bydd angen i mi hefyd brosesu gwybodaeth fwy sensitif (sy'n cael ei hadnabod yn 'wybodaeth categori arbennig') fel:

- Manylion iechyd corfforol neu iechyd meddwl
- Hil neu darddiad ethnig
- Troseddau gan gynnwys troseddau honedig ac ati

Fydda i dim ond yn gofyn am yr wybodaeth yma os yw'n hollol angenrheidiol.

Fel arfer, bydda i'n prosesu gwybodaeth amdanoch chi, ond efallai y bydda i hefyd yn prosesu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â phobl eraill sy'n gysylltiedig â'r mater neu bobl y bydda i'n dod i gysylltiad â nhw wrth fynd i'r afael â'r mater. Mae modd i hyn gynnwys gwybodaeth am, er enghraifft:

- aelodau'r teulu, perthnasau, gwarcheidwaid a phobl eraill sy'n gyfarwydd i'r person rwy'n cynrychioli eu gwybodaeth bersonol
- gweithwyr y cyngor
- landlordiaid a landlordiaid cymdeithasol
- cysylltiadau busnes neu gysylltiadau eraill

## 3. O ble y bydda i'n casglu'ch gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rwy'n ei phrosesu yn debygol o ddod o amrywiaeth o ffynonellau yn dibynnu ar natur eich problem neu bryder a'r unigolion neu'r sefydliadau rwy'n dod i gysylltiad â nhw yn ystod fy ymholiadau. Fel arfer bydda i'n cael gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Wrthych chi pan fyddwch chi'n gofyn am fy nghyngor neu'n gofyn i mi eich cynrychioli.
- Sefydliadau ac asiantaethau sydd o bosibl yn gysylltiedig (gweler cwestiwn 6 isod am enghreifftiau)
- Efallai y bydda i hefyd yn llunio fy ngwybodaeth fy hun er enghraifft wrth ymateb i'ch pryder a diweddaru fy nghofnodion.

## 4. Ar gyfer beth y bydda i'n defnyddio'ch gwybodaeth?

Dim ond er mwyn mynd i'r afael â'r broblem neu'r pryder rydych chi wedi gofyn am fy nghymorth ynglŷn â hi/ag ef, neu er mwyn ymateb i'r broblem neu'r pryder, y bydda i'n defnyddio'ch gwybodaeth.

## 5. Beth yw'r sail gyfreithiol o ran defnyddio'r wybodaeth yma?

Y sail gyfreithiol o ran defnyddio'r wybodaeth yma a'i phrosesu yw:

**Data personol:**
- Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.

**Data Categori Arbennig**
- Erthygl 9 (g) – prosesu sy'n angenrheidiol am resymau er budd sylweddol i'r cyhoedd, ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth: DPA2018, Atodlen 1, Rhan 2 (23 a 24)

**Data am euogfarnau troseddol**
- Erthygl 10 – dim ond dan reolaeth awdurdod swyddogol y caiff data personol sy'n ymwneud ag euogfarn droseddol a throseddau ei brosesu, neu lle mae prosesu wedi'i awdurdodi gan gyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth: DPA2018, Atodlen 1, Rhan 2 (23 a 24).

## 6. Ydych chi'n rhannu fy ngwybodaeth ag unrhyw un arall?

Er mwyn i mi ddelio â'ch cais a datrys eich problem neu bryder, rwy'n debygol o rannu eich gwybodaeth gydag asiantaethau a sefydliadau eraill a fydd o bosibl yn gysylltiedig â'r mater, neu y bydda i'n dod ar eu traws yn ystod fy ymholiadau. Fydd gwybodaeth yn cael ei datgelu i'r unigolion/sefydliadau hyn dim ond os oes angen iddyn nhw wybod.

Bydd natur y sefydliadau neu asiantaethau y mae'n bosibl y bydda i'n rhannu'ch gwybodaeth â nhw yn amrywio yn dibynnu ar natur y broblem neu'r pryder. Mae'n bosibl y byddan nhw'n cynnwys, er enghraifft:

- Adrannau a gwasanaethau'r Cyngor
- Adrannau'r llywodraeth ganolog fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Sefydliadau iechyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Meddyg Teulu, Deintydd ac ati (os yw'ch problem yn gysylltiedig ag iechyd)
- Canolfan Cyngor ar Bopeth
- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chyrff ymchwilio fel yr Heddlu, y Gwasanaethau Prawf
- Eich landlord / cymdeithas dai ac ati (e.e. os ydych chi'n byw mewn llety wedi'i rentu a bod eich problem yn ymwneud â'ch rhent/llety).

Oni bai bod rhaid i mi wneud hynny yn ôl y gyfraith, er enghraifft at ddibenion atal/canfod troseddau neu ddiogelu plant neu oedolion sy'n agored i niwed, fydd yr wybodaeth bersonol ddim yn cael ei datgelu ymhellach ac eithrio at ddibenion delio â'ch cais am gymorth.

**Defnyddio systemau e-bost y Cyngor**

Os ydych chi'n cysylltu â mi drwy fy nghyfeiriad e-bost yn y Cyngor (enw@rctcbc.gov.uk) byddwch yn ymwybodol y bydd yr wybodaeth sydd yn yr e-byst hynny yn cael ei storio gan y Cyngor ar eu systemau TG diogel. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn sganio a monitro e-byst at ddibenion diogelwch (er enghraifft, adnabod a blocio firysau niweidiol).

## 7. Am faint o amser bydd fy ngwybodaeth yn cael ei chadw?

Fel mater o egwyddor, fydda i ddim yn cadw gwybodaeth bersonol am gyfnod hwy nag sydd ei hangen mewn perthynas â'r pwrpas gwreiddiol y cafodd ei chasglu ar ei gyfer.

Er mwyn rheoli hyn yn effeithiol, bydda i'n adolygu pob cofnod sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol bob 6 mis ac yn dileu'r rhai does dim eu hangen bellach.

Fydda i ddim yn cadw'r cofnodion sydd angen eu cadw am gyfnod hwy na thair blynedd o'r dyddiad daw'r achos i ben.

## 8. Eich gwybodaeth, eich hawliau

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhoi hawliau pwysig i chi. Eich prif hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth rwy'n ei phrosesu amdanoch chi yw:

- Yr hawl i gael gwybod – mae gyda chi'r hawl i wybod pa wybodaeth rwy'n ei phrosesu amdanoch chi a'r hyn rwy'n bwriadu ei wneud â hi (mae'r hysbysiad preifatrwydd yma yn

bodloni'r gofyniad yma mewn perthynas â gwaith achos).

- Yr hawl i gael mynediad – mae gyda chi'r hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gyda fi amdanoch chi.
- Yr hawl i gywiro – mae gyda chi'r hawl i gywiro gwybodaeth rwy'n ei chadw amdanoch chi os yw'n anghywir neu'n anghyflawn.
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu – mewn rhai amgylchiadau mae gyda chi'r hawl i ofyn i mi roi'r gorau i brosesu eich gwybodaeth bersonol.

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau gwybodaeth ac ym mha sefyllfaoedd maen nhw'n berthnasol, ewch i https://ico.org.uk

## 9. Sut i gysylltu â mi

Os oes gyda chi unrhyw bryderon, neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth am sut y bydda i'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â mi:

E-bost: Wyn.Hughes@rctcbc.gov.uk

## 10. Eich hawl i gwyno

Mae gyda chi'r hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth (Information Commissioner) os dydych chi ddim yn fodlon ar fy ymateb ar ôl cysylltu â mi am bryder ynglŷn â diogelu data.

Dyma'r manylion cyswllt os ydych chi eisiau cwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner’s Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

Llinell gymorth: 0303 123 1113